**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

5 Chwefror 2021

Annwyl Mike,

**Y Rheoliadau (Diwygio) Organig 2021**

Mae'r O.S. Rheoliadau (Diwygio) Organig 2021 yn ofynnol i barhau hawddfreintiau yn berthnasol i archwiliadau ar y safle gan Gyrff Rheoli organig o gwmnïau organig risg isel, a gyflwynwyd yn 2020 gan y Comisiwn Ewropeaidd, mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19.

Bydd yr hawddfreintiau yn caniatáu archwiliadau ar y safle i gael eu disodli gan wiriadau dogfennol er mwyn lleihau y risg i archwilwyr a chwmnïau o drosglwyddo Covid-19.

Bydd yr O.S yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol, ac mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn bwriadu ei osod gerbron Senedd y DU ar 28 Ionawr.

Yr wyf yn ysgrifennu i roi gwybod, gan fod y diwygiadau hyn yn hawddfreintiau brys dros dro, fy mod yn rhoi fy nghydsyniad yn unol ag Erthygl 38a(3) o'r Rheoliad a Ddargedwir (UE) 834/2007, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn yn berthnasol i Gymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.